Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 mlwydd oed

Gorffennaf 2011

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD · GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Iechyd ar Waith · CYRRAEDD Y NOD · THE CORPORATE STANDARD · Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- awdurdodau lleol;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **2** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Cyd-destun** | **6** |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cefndir | 6 |
| **Safonau mewn rhifedd** | **8** |
| Safonau rhifedd mewn arolygiadau ysgol | 8 |
| Safonau mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 | 9 |
| Cymhwyso cymwysterau rhif | 10 |
| Safonau a deilliannau rhifedd mewn colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith | 12 |
| **Asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr** | **13** |
| Ysgolion | 13 |
| Trosglwyddo | 13 |
| Addysg bellach | 14 |
| Dysgu yn y gwaith | 14 |
| **Cynllunio a chymorth cwricwlwm** | **15** |
| Ysgolion | 15 |
| Colegau | 17 |
| **Staffio a datblygiad proffesiynol** | **19** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **20** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | |
| **Atodiad 2: Astudiaethau achos arfer dda wrth ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Crynodeb

Mae canlyniadau TGAU a chymariaethau rhyngwladol yn dangos bod perfformiad mewn rhifedd yn is yng Nghymru nag yn y gwledydd cartref eraill ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Mae safonau rhifedd fel y'u barnwyd mewn arolygiadau ysgol hefyd yn is nag ar gyfer cyfathrebu mewn Saesneg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae nifer y dysgwyr mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n ennill cymwysterau cymhwyso rhif wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae gormod o'r dysgwyr hyn yn ennill cymwysterau ar lefel rhy isel o'i gymharu â'u gallu. Nid yw'r dysgwyr hyn yn gwella eu medrau rhifedd trwy ddilyn cymwysterau ar lefel rhy isel.

Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n bwriadu datblygu rhifedd yn systematig ar draws y cwricwlwm. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n olrhain cynnydd disgyblion mewn rhifedd yn ddigon da, gan gynnwys y disgyblion a gafodd gymorth ar gyfer rhifedd yng nghyfnod allweddol 3 yn y gorffennol. Nid yw tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn rhoi cymorth penodol i ddysgwyr â medrau rhifedd gwael yng nghyfnod allweddol 4. Er bod ysgolion yn asesu medrau rhifedd disgyblion, nid ydynt yn rhannu'r wybodaeth hon yn ddigon da pan fydd eu dysgwyr yn mynychu cyrsiau yn y coleg neu mewn darparwyr eraill.

Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn asesu lefel medrau rhifedd dysgwyr ar ddechrau cyrsiau. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi a oes angen cymorth sylfaenol ar ddysgwyr. O ganlyniad, mae gan lawer o ddysgwyr gynlluniau dysgu unigol ac maent yn elwa ar ystod o strategaethau cymorth. Fodd bynnag, mae darparwyr yn aml yn cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau medrau allweddol ar y lefel sydd ei hangen i gwblhau nod eu cymhwyster fframwaith yn unig ac nid ydynt yn herio dysgwyr i gyflawni'r tu hwnt i'r lefel hon.

# Prif ganfyddiadau

## Safonau mewn rhifedd

1 Er 2005, mae cynnydd graddol wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau TGAU A* i C mewn mathemateg yng Nghymru i 55%. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn islaw'r ffigur yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

2 Yn arolwg PISA 2009, roedd y sgôr gymedrig mewn mathemateg ar gyfer Cymru gryn dipyn yn is na'r sgorau cymedrig ar gyfer gwledydd eraill y DU.

3 Er 2004, mae safonau rhifedd a farnwyd mewn arolygiadau ysgol ond wedi gwella'n raddol mewn ysgolion uwchradd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae safonau mewn rhifedd yn is nag y maent mewn cyfathrebu mewn Saesneg ac mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

4 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr sy'n ennill cymwysterau medrau allweddol[1] mewn cymhwyso rhif ar bob lefel. Mae mwy a mwy o ddarparwyr wedi cyflwyno'r cymhwyster rhifedd fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn parhau i gael eu cofrestru ar gyfer dyfarniadau medrau allweddol ar lefel sy'n rhy isel mewn perthynas â'u gallu.

## Asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr

5 Ychydig o ysgolion uwchradd yn unig sy'n olrhain cynnydd disgyblion mewn rhifedd yn ddigon da. Caiff dysgwyr â medrau rhifedd gwan eu nodi ym Mlwyddyn 7 i ddechrau, ac fe gaiff y dysgwyr hyn gymorth yn ystod cyfnod allweddol 3 fel arfer. Ond y prif reswm dros asesu medrau rhifedd yng nghyfnod allweddol 4 yw trefnu dysgwyr mewn setiau mathemateg. Ni chaiff cynnydd dysgwyr mewn rhifedd ei olrhain yn ystod cyfnod allweddol 4 fel arfer, gan gynnwys cynnydd disgyblion sydd wedi cael cymorth yng nghyfnod allweddol 3 yn flaenorol.

6 Er bod ysgolion yn asesu medrau rhifedd disgyblion, nid ydynt yn rhannu'r wybodaeth hon yn ddigon da gydag eraill pan fydd eu dysgwyr yn mynychu cyrsiau mewn darparwyr addysg eraill. Er enghraifft, pan fydd grwpiau o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 yn mynychu coleg neu ddarparwr arall am ran o wythnos, nid yw'r cyswllt rhwng staff rhifedd yr ysgol a'r coleg yn ddigon da.

7 Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn asesu medrau sylfaenol dysgwyr yn rheolaidd pan fyddant yn dechrau, er mwyn nodi'r dysgwyr hynny a fyddai'n elwa ar gymorth yn y dosbarth neu gymorth ychwanegol. Wedyn, maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas i fonitro ac olrhain cynnydd y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r dysgwyr y nodwyd bod ganddynt wendidau yn eu medrau rhifedd yn manteisio ar y cymorth a gynigir neu'n parhau i

[1] Ym Medi 2010, cyflwynwyd Sgiliau Hanfodol Cymru gan Lywodraeth Cymru, a ddaeth ynghyd â'r medrau allweddol blaenorol, sef cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a'r cymwysterau medrau Oedolion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh, i ddarparu un ysgol o ddilyniant o lefel mynediad 1 i lefel 4.

ofyn am gymorth pan fyddant wedi cyrraedd y lefel sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer cyflawni eu nod cymhwyster.

**Cynllunio a chymorth cwricwlwm**

8 Lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n datblygu medrau rhifedd dysgwyr yn effeithiol ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. Yn yr ysgolion hyn, yr adran fathemateg sydd fel arfer yn cymryd yr awenau ac fe gaiff cyfleoedd addas i ddatblygu rhifedd mewn pynciau eraill eu cynllunio'n ofalus. Er enghraifft, gallai'r adrannau mathemateg, gwyddoniaeth a daearyddiaeth gynllunio i atgyfnerthu llunio graffiau ar yr un pryd ac mewn ffordd gytûn. Mae cynllunio gweithgareddau rhifedd ar y cyd rhwng adrannau yn y modd hwn yn cryfhau amgyffrediad dysgwyr o agweddau penodol ar rifedd ac maent yn dysgu trosglwyddo medrau rhwng pynciau a chyd-destunau.

9 Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion uwchradd nad ydynt yn datblygu medrau rhifedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Nid ydynt yn cynllunio nac yn cydlynu cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau heblaw mathemateg. Pan nad yw ysgolion yn archwilio'r ddarpariaeth er mwyn nodi cyfleoedd pellach i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm, nid yw dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau ymarferol a pherthnasol. O ganlyniad, hyd yn oed pan fydd gan ddisgyblion fedrau rhifedd da, nid oes ganddynt yr hyder yn aml i ddefnyddio'r medrau hyn mewn cyd-destunau anghyfarwydd neu mewn pynciau heblaw mathemateg.

10 Fel arfer, caiff dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion gymorth mewn dosbarth ar wahân gan ganolbwyntio ar fathemateg TGAU, yn hytrach nag ymyrraeth benodol i wella rhifedd. Nifer fach o ysgolion yn unig sy'n darparu cymorth ychwanegol yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer dysgwyr y mae eu medrau rhifedd yn wan.

11 Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr fel rhan o'u hymateb i'r fframwaith medrau. Er bod athrawon yn dweud wrth ddisgyblion y bydd rhifedd yn rhan o'u gwersi, yn aml nid ydynt yn rhoi llawer o sylw i wella medrau rhifedd mewn gwersi heblaw mathemateg.

12 Yn gyffredinol, mae colegau a darparwyr eraill dysgu yn y gwaith yn darparu amrywiaeth addas o strategaethau cymorth ac adnoddau i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr, er bod cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd i'w gweld yn gryfach ar gyrsiau sy'n gofyn am y medrau hynny yn alwedigaethol. Mewn rhai achosion, mae angen darparu mwy o gymorth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg flaenorol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Staffio a datblygiad proffesiynol**

13 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi darparu hyfforddiant ar rifedd. Darperir hyfforddiant ar gymwysterau cymhwyso rhif ar gyfer cydlynwyr rhifedd ysgolion gan CBAC. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant wedi gwneud digon i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau ar y lefel briodol neu fod portffolios yn cynnwys tystiolaeth o ystod o bynciau.

14 Mae llawer o'r staff cymorth arbenigol a'r cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n cyflwyno neu'n cefnogi medrau sylfaenol mewn colegau yn gymwys ar gyfer y gwaith hwn. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae llawer o'r tiwtoriaid cwrs hefyd wedi ennill cymwysterau medrau sylfaenol/hanfodol i gefnogi anghenion rhifedd dysgwyr.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

15 Mae'r rhan fwyaf o golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu medrau sylfaenol dysgwyr mewn dogfennau corfforaethol allweddol. Yn gyffredinol, mae uwch reolwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i arfarnu darpariaeth a deilliannau medrau sylfaenol. Fodd bynnag, mae darparwyr yn aml yn cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau medrau allweddol ar y lefel sydd ei hangen i gwblhau nod eu cymhwyster fframwaith yn unig, ac nid ydynt yn herio dysgwyr i gyflawni y tu hwnt i'r lefel hon.

16 Mewn rhai ysgolion lle mae addysgu rhifedd wedi'i ddatblygu'n dda ar draws y cwricwlwm, mae uwch reolwyr yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn gyrru mentrau yn eu blaen. Mae'r arweinwyr yn gofyn am gyllid am adnoddau a hyfforddiant ychwanegol. Yn yr ysgolion hyn, mae athro mathemateg fel arfer yn cydlynu darpariaeth rifedd. Mae gan y cydlynwyr hyn wybodaeth bynciol dda, ac maent yn ysbrydoli, yn cefnogi ac yn arwain cydweithwyr. Caiff symbyliadau parhaus i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm eu darparu'n aml gan grŵp rhifedd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob maes pwnc.

17 Mewn rhai ysgolion, caiff safonau medrau rhifedd disgyblion eu harfarnu ar draws pob maes pwnc. Mae uwch reolwyr yn olrhain effaith mentrau trwy arsylwi safonau yn uniongyrchol yn ystod trywyddau dysgwyr, yn ogystal â dadansoddi deilliannau asesiadau mewnol ac allanol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw uwch reolwyr mewn ysgolion yn monitro nac yn arfarnu effaith y strategaethau i wella medrau rhifedd dysgwyr yn ddigonol.

## Argymhellion

Dylai ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith:

A1 sicrhau bod rhifedd yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno mewn cyd-destunau perthnasol ac ymarferol ar draws y cwricwlwm;

A2 asesu ac olrhain cynnydd medrau rhifedd dysgwyr ar draws y cwricwlwm;

A3 sicrhau bod ymyriadau addas ar waith yng nghyfnod allweddol 4 i gefnogi dysgwyr â medrau rhifedd gwael;

A4 ar gyrsiau ar y cyd, sicrhau bod medrau rhifedd blaenorol dysgwyr yn cael eu nodi a bod y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r darparwr sy'n eu derbyn;

A5 hyfforddi staff i ddeall sut i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr;

A6 monitro ac arfarnu effaith y strategaethau i wella rhifedd dysgwyr;

A7 darparu cymorth ac adnoddau yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr Cymraeg; a

A8 chofrestru dysgwyr ar lefel sy'n briodol heriol ar gyfer cymwysterau medrau hanfodol a chynnwys tystiolaeth o bynciau heblaw mathemateg mewn portffolios gwaith.

# Cyd-destun

## Cyflwyniad

18 Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 2010-2011. Mae’n rhoi trosolwg o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16 mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Fodd bynnag, mae ei brif ffocws ar y modd y mae darparwyr yn ceisio codi safonau dysgwyr â medrau rhifedd gwan yn ystod addysg orfodol.

19 Mae’r adroddiad yn adeiladu ar adroddiad arolwg Estyn, ‘Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3’ a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010.

20 Mae’r adroddiad wedi’i fwriadu’n bennaf ar gyfer staff sy’n gysylltiedig ag addysgu rhifedd, ar gyfer arweinwyr a rheolwyr darparwyr, ac ar gyfer ymgynghorwyr awdurdodau lleol. Mae’r atodiad i’r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer dda.

## Cefndir

21 Nid yw rhifedd yr un fath â mathemateg. Hyfedredd gyda rhif yw rhifedd sy’n cael ei gaffael trwy gael eich addysgu’n dda am fathemateg. Er bod dysgwyr fel arfer yn dysgu eu medrau rhifedd yn ystod gwersi mathemateg, i fod yn gwbl rifog, rhaid iddynt allu cymhwyso’r medrau hyn mewn meysydd pwnc eraill ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

22 Mae’r Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig, Llwybrau Dysgu 14-19 a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gofyn am roi llawer o sylw i fedrau, gan gynnwys medrau rhifedd. Datblygu rhifedd yw un o’r blaenoriaethau a amlinellir yn Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru.

23 Cyhoeddwyd ‘Geiriau’n Galw – Rhifau’n Cyfri’, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i wella llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, yn 2005 ac mae’n amlinellu’r ymagwedd gyffredinol ar gyfer y pum mlynedd ganlynol. Mae’n cynnwys, ymhlith ei phrif nodau:

- y dylai llai o bobl ifanc adael addysg orfodol yn parhau i gael trafferth â medrau sylfaenol; ac
- y dylid lleihau nifer yr oedolion â medrau sylfaenol gwael yn sylweddol.

24 Diffinnir medrau sylfaenol fel y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg neu Saesneg a defnyddio mathemateg ar lefel sy’n angenrheidiol i weithredu a gwneud cynnydd yn y gwaith ac mewn cymdeithas. O ran cymwysterau, diffinnir medrau sylfaenol fel lefel 1 yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (ar gyfer pob dysgwr 14 oed ac yn hŷn). Yn 2001, 50% oedd cyfran y bobl nad oedd ganddynt unrhyw gymhwyster a oedd mewn cyflogaeth; erbyn 2009, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 42%. Ar gyfer pobl â chymwysterau uwch, 87% oedd y gyfran mewn cyflogaeth yn 2001 ac 86% yn 2009.

25 Ffocws strategaeth Llywodraeth Cymru yw gwella lefelau llythrennedd a rhifedd hyd at, ac yn cynnwys lefel 1. Yn 2004, canfu arolwg ar gyfer Sgiliau Sylfaenol Cymru fod medrau rhifedd 53% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 mlwydd oed ar lefel mynediad tri, neu'n is; dyma lefel sydd gyfwerth â medrau rhifedd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 11 oed. Mae hyn yn cymharu â 25% y mae eu medrau llythrennedd ar lefel tri neu'n is.

26 Ym Medi 2010, cyflwynwyd Sgiliau Hanfodol Cymru gan Lywodraeth Cymru, a ddaeth ynghyd â'r medrau allweddol blaenorol sef cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, a'r cymwysterau medrau Oedolion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh, i ddarparu un ysgol o ddilyniant o lefel mynediad 1 i lefel 4.


27 Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn darparu arweiniad ar sut i ddatblygu parhad a dilyniant ar draws y cwricwlwm a rhwng cyfnodau allweddol ym medrau meddwl, cyfathrebu, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhif. Nod yr adran am ddatblygu rhif yw helpu athrawon i wella medrau rhifedd ar draws pob maes pwnc.

# Safonau mewn rhifedd

## Safonau rhifedd mewn arolygiadau ysgol


28 Yn ystod arolygiadau Adran 28 o ysgolion uwchradd, mae arolygwyr yn arfarnu safonau mewn rhifedd. Er 2005, mae safonau rhifedd wedi gwella'n raddol mewn ysgolion uwchradd er y bu gostyngiad mewn safonau yn 2009-2010.

Ffigur 1: Canrannau'r graddau a ddyfarnwyd mewn arolygiadau ar gyfer safonau mewn rhifedd rhwng 2005 a 2010




29 Yn 2009-2010, barnwyd bod safonau yn dda neu'n well yng nghyfnod allweddol 4 mewn 69% o ysgolion uwchradd. Mae hyn yr un fath ag yng nghyfnod allweddol 3 a gostyngiad o 19 pwynt canran o 2008-2009. Roedd safonau rhifedd ar eu huchaf ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth, lle maent yn dda neu'n well bron ym mhob ysgol.

Ffigur 2: Canrannau safonau da neu well mewn medrau allweddol fel y'u nodwyd mewn arolygiadau ysgolion uwchradd rhwng 2009 a 2010



30 Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae canran yr ysgolion uwchradd lle mae safonau'n dda neu'n well tua 20 pwynt canran yn is ar gyfer rhifedd nag ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu ar gyfer cyfathrebu yn Saesneg. Maent yn debyg i'r rhai ar gyfer cyfathrebu yn Gymraeg. Yn y chweched dosbarth, mae safonau'n uchel iawn ym mhob un o'r medrau ac eithrio cyfathrebu yn Gymraeg.

31 Mae llawer o ysgolion yn cynnig rhaglenni ymyrraeth i gefnogi'r dysgwyr hynny yng nghyfnod allweddol 3 y mae angen iddynt wella eu medrau rhifedd. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnig y cymorth hwn yng nghyfnod allweddol 4 er nad yw safonau rhifedd yn uwch nag yng nghyfnod allweddol 3.

32 Nid yw safonau rhifedd da yn ddigon i godi safonau mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4. Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod llai o bwyslais ar rif yn y maes llafur mathemateg TGAU lefel uwch yng nghyfnod allweddol 4 nag yng nghwricwlwm cyfnod allweddol 3. Ar y lefelau uwch, rhoddir mwy o bwyslais ar ddatrys problemau ac ar ddulliau algebraidd, geometrig ac ystadegol. Fodd bynnag, mae cael safonau rhifedd da yn helpu ymgeiswyr sy'n anelu at y graddau mathemateg is mewn TGAU i gyflawni'n well nag y byddent fel arall. Mae cael lefelau rhifedd da hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau mewn pynciau eraill ar gyfer pob dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer llawer o agweddau ar fywyd a gwaith.

33 Er bod dysgwyr fel arfer yn dysgu eu medrau rhifedd yn ystod gwersi mathemateg, i fod yn gwbl rifog, rhaid iddynt allu cymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd pwnc eraill a chyd-destunau bywyd go iawn.

## Safonau mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4

34 Mae pob dysgwr yn astudio mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 fel gofyniad statudol. Mae bron pob un ohonynt yn sefyll arholiad allanol mewn mathemateg, sef TGAU fel arfer. Mae perfformiad mewn mathemateg TGAU yn rhoi syniad i ni o safonau medrau rhifedd dysgwyr yn y cyfnod allweddol hwn.


35 Er 2005, mae cynnydd graddol wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau TGAU A* i C mewn mathemateg yng Nghymru. Er hynny, mae hyn yn cymharu'n anffafriol â Lloegr, ac mae gryn dipyn yn is nag yng Ngogledd Iwerddon fel y dangosir yn nhabl 1 isod:

Ffigur 3: canlyniadau TGAU – canran y graddau A*-C mewn TGAU mathemateg ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon

| | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 50% | 50% | 51% | 53% | 55% |
| Lloegr | 53% | 56% | 55% | 57% | 59% |
| Gogledd Iwerddon | 79% | 84% | 88% | 79% | 76% |

36 Er 2005, mae cynnydd graddol wedi bod yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau TGAU A* i C mewn mathemateg. Mae cyfran y bechgyn sy'n cyflawni'r graddau hyn yn gyson is na chyfran y merched, er bod y bwlch yn dechrau mynd yn llai, ac yn 2010, roedd eu cyrhaeddiad yr un fath.

Ffigur 4: Canran y disgyblion sy'n cyflawni graddau TGAU A*-C mewn mathemateg rhwng 2005 a 2010




37 Arolwg o gyflawniad addysgol dysgwyr 15 mlwydd oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth mewn nifer o wledydd wedi'u datblygu'n economaidd a drefnwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yw'r Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA), ac fe'i cynhelir bob tair blynedd. Yn 2009, prif bwnc yr arolwg oedd darllen. Roedd ychydig bach o ffocws ar fathemateg a gwyddoniaeth ac ymgymerodd llai o ymgeiswyr â'r asesiadau hyn ac roeddent yn cynnwys llai o gwestiynau na'r asesiad darllen. Arfarnodd y prawf alluoedd disgyblion i ddefnyddio eu medrau a'u gwybodaeth fathemategol i ddatrys problemau yn greadigol. Amrywiodd y cwestiynau o ran eu hanhawster o weithdrefnau mathemategol syml i'r rhai lle'r oedd yn rhaid i ddisgyblion greu eu strwythur eu hunain i'w hateb yn llwyddiannus. Nod yr arolwg oedd asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth fathemategol mewn gwahanol sefyllfaoedd mewn bywyd oedolyn.


38 Cymerodd cyfanswm o 65 o wledydd ran yn yr arolwg yn 2009. Roedd y sgôr gymedrig ar gyfer Cymru mewn mathemateg gryn dipyn yn is na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mewn 35 o wledydd, ac yn y tair rhan arall o'r Deyrnas Unedig, roedd y sgorau cymedrig ar gyfer mathemateg gryn dipyn yn uwch na'r rhai ar gyfer Cymru. Ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, roedd sgôr bechgyn gryn dipyn yn uwch na merched, ac roedd y bwlch ar gyfer pob gwlad gartref yn ehangach na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

## Cymwysterau cymhwyso rhif

39 Adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd dysgwyr yn dilyn cymwysterau medrau allweddol ac maent eto i ddilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Bob blwyddyn rhwng 2005 a 2009, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr sy'n cyflawni lefel 1, lefel 2

neu lefel 3 mewn cymhwyso rhif.  Er 2005, mae asesu wedi digwydd trwy bortffolio o dystiolaeth wedi'i asesu'n fewnol, lle'r oedd yn cynnwys prawf wedi'i farcio'n allanol yn y gorffennol.  Arweiniodd canlyniad uniongyrchol y newid hwn at dros 150% o gynnydd canran yng nghyfanswm nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus yn 2006.  Mae'r cynnydd canran flwyddyn ar ôl blwyddyn wedyn yn amrywio o 35% rhwng 2006 a 2007 i 90% rhwng 2008 a 2009.  Er hynny, ni roddir cyfleoedd i ddigon o ddysgwyr mewn ysgolion ennill cymwysterau lefel 3 mewn cymhwyso rhif.  Mae'r trefniadau asesu diwygiedig a gyflwynwyd yn 2005 a'r twf ym Magloriaeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n ennill cymwysterau mewn cymhwyso rhif.

Ffigur 5:  Nifer y dysgwyr sy'n cyflawni lefel 1, 2 neu 3 mewn cymhwyso rhif




40 Tan 2009-2010, roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr hyn mewn darparwyr addysg bellach neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith.  Yn 2008-2009, roedd tua 90 o ganolfannau yn cynnig y cymwysterau hyn.  O Fedi 2009, cynyddodd nifer y canolfannau achredig i 167, a chofrestrodd llawer o ysgolion grwpiau blwyddyn cyflawn o'u dysgwyr cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 am y tro cyntaf.  Ers Medi 2010, mae nifer yr ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sydd wedi'u hachredu fel canolfannau wedi cyrraedd 212, ac mae'n debygol y bydd cynnydd pellach yn nifer yr ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster cymhwyso rhif yn 2010-1011.

Ffigur 6:  Cyfradd lwyddo dysgwyr mewn cymhwyso rhif 2010

| | **Cofrestru** | **Llwyddo** | **Cyfradd lwyddo** |
|---|---:|---:|---:|
| **Lefel 1** | 6,326 | 6,145 | 97.1% |
| **Lefel 2** | 10, 653 | 10,275 | 96.5% |
| **Lefel 3** | 1,560 | 1,437 | 92.1% |

41 At ei gilydd, cofrestrwyd gormod o ddysgwyr ar gyfer dyfarniadau medrau allweddol ar lefel rhy isel ac ni wnaethant gyflawni cystal ag y gallent fod wedi gwneud ar lefel fwy heriol. Nid yw ysgolion na cholegau ychwaith yn rhoi digon o ystyriaeth i gyflawniad blaenorol dysgwyr wrth benderfynu ar yr haen gofrestru berthnasol.

## Safonau a deilliannau rhifedd mewn colegau addysg bellach a dysgu yn y gwaith

42 Mae cyfran y myfyrwyr sy'n ennill cymwysterau cymhwyso rhif mewn colegau addysg bellach wedi gwella dros gyfnod, fel y dangosir yn y tabl isod, er na chafodd chwarter y dysgwyr y cymhwyster rhifedd yr oeddent yn anelu ato yn 2008-2009.

Ffigur 7: Medrau allweddol mewn colegau addysg bellach

| | 2006-2007 | | | | 2007-2008 | | | | 2008-2009 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr ymrestriadau** | **% cwblhau** | **% cyrhaeddiad** | **% llwyddo** | **Nifer yr ymrestriadau** | **% cwblhau** | **% cyrhaeddiad** | **% llwyddo** | **Nifer yr ymrestriadau** | **% cwblhau** | **% cyrhaeddiad** | **% llwyddo** |
| **Pob cwrs** | | | | | | | | | | | | |
| Cymhwyso rhif | | | | | | | | | | | | |
| L1 | 7,395 | 84% | 72% | 60% | 7,528 | 85% | 78% | 66% | 6,076 | 86% | 87% | 75% |
| L2 | 8,075 | 84% | 67% | 56% | 9,235 | 88% | 67% | 59% | 8,308 | 89% | 84% | 75% |
| L3 | 1,301 | 91% | 40% | 37% | 1,518 | 91% | 41% | 38% | 1,382 | 92% | 63% | 58% |
| **Cyfanswm** | **16,771** | **85%** | **67%** | **57%** | **18,281** | **87%** | **69%** | **60%** | **15,766** | **88%** | **83%** | **74%** |

Ffynhonnell: CDGOC

43 Roedd safonau mewn rhifedd yn dda neu'n well mewn tua hanner yn unig o'r darparwyr dysgu yn y gwaith a arolygwyd rhwng 2005 a 2010, ond mae gwelliant cyson wedi bod yng nghyfraddau llwyddo'r fframwaith cyffredin dros y cyfnod hwn. Yn 2006-2007, 65% oedd cyfradd gwblhau'r fframwaith cyffredinol, ac fe gynyddodd i 66% yn 2007-2008, 75% yn 2008-2009 a 80% yn 2009-2010. Mae data nas gwiriwyd yn awgrymu bod y gyfradd 80% o leiaf yn cael ei chynnal eleni. Mae llawer o'r gwelliant hwn wedi digwydd o ganlyniad i gyrhaeddiad gwell yn y cymwysterau medrau allweddol gofynnol.

44 Fodd bynnag, mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn aml yn cofrestru dysgwyr ar y lefel isaf sy'n ofynnol ar gyfer y fframwaith cymhwyster neu ar yr un lefel â gweddill eu grŵp (lefel 1 fel arfer). Ni roddir digon o ystyriaeth i allu'r unigolyn, ac ni chaiff dysgwyr eu herio i gyrraedd lefelau cyrhaeddiad uwch.

45 Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn asesu medrau sylfaenol dysgwyr yn rheolaidd pan fyddant yn dechrau. Mae data a gasglwyd gan Golegau Cymru ar ganlyniadau asesiadau sgrinio cychwynnol medrau sylfaenol o'r holl ddysgwyr yng ngharfan y flwyddyn gyntaf ym mhob coleg addysg bellach yng Nghymru, yn Nhachwedd 2010, yn dangos bod gan bron i hanner y dysgwyr hyn fedrau rhifedd a oedd islaw lefel 1, sy'n cymharu â thua 43% mewn llythrennedd.

## Asesu ac olrhain cynnydd dysgwyr

### Ysgolion

46 Mae ysgolion uwchradd yn defnyddio amrywiaeth eang o asesiadau gwaelodlin a phrofion wedi'u creu'n fewnol i nodi anghenion eu dysgwyr, ac maent yn defnyddio'r rhain i olrhain eu cynnydd. Mae ysgolion yn defnyddio pecynnau meddalwedd fasnachol yn gynyddol i ddarparu asesiad cychwynnol o fedrau rhifedd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae'r arfer hon yn amrywio ar draws ysgolion, a lle mae'n digwydd, mae'n aml yn rhagarweiniad ar gyfer paratoi portffolios cymhwyso rhif dysgwyr.

### Trosglwyddo

47 Pan fo grwpiau o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 yn mynychu coleg addysg bellach cyfagos am ran o'r wythnos, mae ansawdd y cyswllt rhwng staff rhifedd yr ysgol a'r coleg yn amrywio gormod. Mae rhai ysgolion yn anfon manylion am gyrhaeddiad dysgwyr mewn mathemateg i'r coleg. Mewn achosion eraill, os bydd y coleg yn nodi bod medrau rhifedd dysgwr yn rhy isel ar gyfer cwrs penodol, hysbysir yr adran fathemateg er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag, nid yw arferion fel y rhain mor gyffredin ag y dylent fod.

48 Mae partneriaethau effeithiol yn datblygu rhwng rhai colegau a'u hysgolion partner. Mewn un enghraifft, mae dysgwyr cyfnod allweddol 4 ar gyrsiau cyswllt yn mynd trwy gyfnod ymsefydlu yn y mis Mehefin cyn iddynt ddechrau ym mis Medi pan fyddant yn cyfarfod â'u tiwtoriaid ac yn cael eu sgrinio ar gyfer medrau sylfaenol. Caiff staff y coleg eu neilltuo i'r ysgolion partner ac maent yn casglu data trosglwyddo ar bob un o'r dysgwyr er mwyn eu rhoi ar gwrs o lefel addas. Mewn enghraifft arall, mae ysgolion partner yn rhoi proffiliau medrau dysgwyr i diwtoriaid galwedigaethol y coleg ar gyfer pob un o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 sydd ar gyrsiau cyswllt. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, mae tiwtoriaid medrau hanfodol yn y coleg yn cyfarfod â thiwtoriaid medrau hanfodol yn yr ysgolion i fapio'r ddarpariaeth rifedd yn y brif raglen astudio. Ceir trafodaethau rheolaidd i rannu gwybodaeth a llywio'r addysgu a'r dysgu.

49 Mae sawl coleg yn llwyddo mewn adroddiadau interim ac adroddiadau diwedd tymor ar gyflawniadau dysgwyr cyfnod allweddol 4 yn yr ysgol. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, ychydig iawn o gyfnewid gwybodaeth a geir rhwng yr ysgol a'r coleg. Mae rhai ysgolion yn amharod i drosglwyddo unrhyw ddata am eu dysgwyr, oherwydd eu bod yn credu y gallai hyn fynd yn groes i'r Ddeddf Diogelu Data. Ni chaiff y cysylltiadau gwell rhwng ysgolion a cholegau eu defnyddio'n effeithiol i rannu gwybodaeth am ddysgwyr rhwng sefydliadau. Mae mwy a mwy o ysgolion yn awr yn cofrestru eu dysgwyr ar gyfer cymwysterau cymhwyso rhif ar lefelau gwahanol, ond nid ydynt yn cyflwyno'r wybodaeth hon pan fydd y dysgwyr yn trosglwyddo i ddarpariaeth y coleg. Mae pob coleg yn gofyn i ddysgwyr lenwi holiadur adeg cofrestru, yn datgan lefel eu medrau allweddol. Wedyn, mae colegau yn cyfeirio dysgwyr i gymorth priodol lle bydd angen.

50 Nid yw ysgolion fel arfer yn rhoi datganiadau o anghenion addysgol arbennig i golegau oni bai bod y rhiant neu’r dysgwr yn gofyn yn benodol iddynt wneud hynny. Hyd yn oed wedyn, mae’n aml yn anodd i golegau gael y wybodaeth hon.

## Addysg bellach

51 Mae colegau yn defnyddio amrywiaeth o asesiadau cychwynnol gyda phob un o’u dysgwyr yn y flwyddyn gyntaf, i nodi’r dysgwyr hynny a fyddai’n elwa ar gymorth rhifedd yn y dosbarth neu gymorth ymyrraeth gychwynnol. Mewn rhai achosion, cynhelir asesiadau cychwynnol yn y cyfnod cyfweld cyn cynnig lle ar gwrs. Nid yw pob asesiad cychwynnol ar gael yn ddwyieithog. Fe wnaeth nifer o ysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant arbrofi ag offeryn asesu dwyieithog newydd y llynedd, ond dywed defnyddwyr ei fod yn cynnwys nifer o wendidau, gan gynnwys adroddiadau cyfyngedig, anhawster wrth ei ddefnyddio, camgymeriadau yn y fersiwn cyfrwng Cymraeg, a dim deunyddiau diagnostig neu gymorth. Dywedodd defnyddwyr fod gwahaniaeth sylweddol mewn canlyniadau rhwng yr offeryn asesu cychwynnol newydd hwn a meddalwedd asesu arall. Yn sgil hyn, ni nodwyd anghenion rhifedd ychydig iawn o ddysgwyr yn gywir.

52 Yn gyffredinol, caiff dysgwyr gymorth da mewn colegau. Mae asesiadau diagnostig yn amlygu anghenion unigol dysgwyr yn fanwl, ac fe gaiff rhaglenni dysgu unigol eu cynllunio. Mewn colegau, mae gwasanaethau myfyrwyr, yr adran cymorth dysgu neu bennaeth pob cyfadran neu faes dysgu yn nodi lefelau’r cymorth medrau allweddol sydd eu hangen ar unigolion. Caiff y wybodaeth hon naill ai ei rhoi i diwtoriaid cyrsiau, neu fe gaiff y dysgwyr eu cyfeirio at yr uned cymorth dysgu am wersi ychwanegol.

## Dysgu yn y gwaith

53 Mae tua hanner y colegau sy’n darparu ar gyfer dysgwyr yn y gwaith yn asesu’r dysgwyr hyn oddi ar y safle ar y cychwyn gyda phrawf ar bapur, a hanner gyda phrawf cyfrifiadurol. Wedyn, mae’r rhan fwyaf o golegau yn cofnodi’r canlyniadau ar rwydwaith TG y coleg, yn yr un modd ag ar gyfer dysgwyr amser llawn. Yna, fe gaiff yr asesiad cychwynnol a’r gwaith dilynol diagnostig eu trafod rhwng y dysgwr, yr asesydd a’r cyflogwr, a chytunir ar gynllun dysgu, sy’n aml yn cynnwys targedau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol, mae’r targedau hyn ar lefel y medrau allweddol sydd ei hangen i gwblhau’r fframwaith neu ar lefel gyffredinol ar gyfer pob dysgwr, ond nid ydynt yn herio dysgwyr i gyflawni’r tu hwnt i’r lefel hon.

## Cynllunio a chymorth cwricwlwm

### Ysgolion

54 Ar y cyfan, mae ysgolion uwchradd o'r farn mai ymyrraeth gynnar yw'r strategaeth fwyaf effeithiol ac maent yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'u hadnoddau i Flwyddyn 7. Os bydd y cymorth ychwanegol hwn yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 3, yna mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn credu nad oes angen gwneud mwy yng nghyfnod allweddol 4. Yn hytrach, maent yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau mewn rhifedd trwy eu gwersi mathemateg arferol neu drwy ddosbarthiadau anghenion ychwanegol ar wahân. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn olrhain cynnydd dysgwyr sydd wedi cael cymorth yng nghyfnod allweddol 3 yn ddigon da i wybod p'un a yw eu hangen am ymyrraeth yn parhau.

55 Mae dysgwyr ysgol sy'n mynychu cyrsiau mewn coleg lleol fel arfer yn cael cymorth ychwanegol gan diwtor ar gyfer rhifedd yn eu tiwtorialau a'u sesiynau ymarferol yn y coleg. Mae'r dysgwyr hyn ar gyrsiau sydd ar lefel mynediad neu lefel 1 fel arfer yn cael cymorth rhifedd fel rhan o'u cwrs. Mae hyn yn awgrymu bod nifer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 y mae eu hangen am gymorth rhifedd yn parhau. Nid oes cyfathrebu digon da rhwng yr adrannau mathemateg mewn ysgolion a'r coleg ac nid yw dysgwyr bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn yr ysgol.

56 Dim ond rhai ysgolion sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 y mae eu medrau rhifedd yn wan, sydd fel arfer yn cynnwys eu tynnu o gyfnodau cofrestru/gwersi neu ddarparu gwersi penodol. Mae'r cymorth hwn yn aml yn cynnwys defnyddio meddalwedd benodol sy'n gallu canfod gwendidau a darparu gweithgareddau ar-lein ac adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny. Mae dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol yn aml yn dweud bod eu medrau rhifedd wedi gwella ar y cyfan a bod ganddynt fwy o hunanhyder. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r adran fathemateg yn darparu sesiynau amser cinio y caiff dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol eu cyfeirio iddynt. Fodd bynnag, mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i ennill cymhwyster TGAU mewn mathemateg yn hytrach nag ar wella medrau rhifedd.

57 Mae llawer o ysgolion wedi cynyddu eu ffocws ar wella medrau allweddol dysgwyr i ymateb i'r fframwaith medrau anstatudol. Yn yr ysgolion hyn, mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant naill ai gan yr adran fathemateg neu'r awdurdod lleol ar rifedd a defnyddio'r fframwaith medrau. Mewn llawer o achosion felly, mae aelodau o'r adran fathemateg wedi bod yn gysylltiedig ag adrannau pwnc eraill i roi cyngor ac arweiniad ar y modd y gellir datblygu rhifedd o fewn y pynciau eraill a sicrhau bod medrau rhifedd yn cael eu defnyddio'n gywir. Yn yr achosion gorau, mae pob adran wedi nodi cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu medrau rhifedd yn eu cynlluniau gwaith. Yn yr ysgolion hyn, mae ffocws clir ar rifedd yn holl gynlluniau'r cwricwlwm. Er hynny, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn nodi cyfleoedd i ymdrin â rhifedd mewn gwersi neu unedau gwaith, nid ydynt yn rhoi digon o sylw i ddatblygu a gwella medrau dysgwyr.

58 Mae tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn darparu cymorth ac amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth ar gyfer ystod eang o ddysgwyr yng nghyfnod

allweddol 4. Bron yn ddieithriad, mae adrannau mathemateg yn yr ysgolion hyn yn ymwneud yn agos â datblygu arfer ysgol gyfan, gan ddarparu hyfforddiant effeithiol ac arweiniad perthnasol ar gyfer adrannau eraill. Ar y llaw arall, lle na chaiff y ddarpariaeth ei harchwilio i nodi cyfleoedd pellach i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm, ni chaiff dysgwyr gyfle i ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau pwnc ymarferol a pherthnasol. Nid yw rhai ysgolion wedi ystyried y fframwaith medrau eto.

59 Mae mwy a mwy o ysgolion yn cofrestru dysgwyr ar gyfer y cymwysterau mewn cymhwyso rhif, fel arfer gyda lefel uchel o lwyddiant. Mae'r ffordd y caiff y rhain eu cyflwyno yn amrywio o un ysgol i'r llall. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn anelu at lefel mynediad, ond yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dilyn lefel 1 ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9, a lefel 2 ym Mlwyddyn 9 neu Flwyddyn 10. Mae nifer fach o ysgolion yn cofrestru dysgwyr mwy abl Blwyddyn 11 ar gyfer lefel 3 yn llwyddiannus.

60 Mae rhai ysgolion yn cofrestru dysgwyr ôl-16 (yn enwedig y rhai sy'n astudio mathemateg Safon Uwch, ond nid y rhain yn unig) ar gyfer lefel 3. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni chaiff digon o ddysgwyr eu cofrestru ar gyfer lefel 3. Mae ysgolion yn aml yn cofrestru dysgwyr ar gyfer lefel 2 er bod llawer ohonynt eisoes wedi llwyddo ar lefel 2 mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae hyn yn aml yn digwydd pan fydd y dysgwyr hyn hefyd yn astudio mathemateg UG neu Safon Uwch ar lefel 3. O ganlyniad, nid yw'r gwaith yn ddigon heriol ac mae dysgwyr yn diflasu.

61 Nid oes digon o ddilyniant yn y chweched dosbarth ar gyfer dysgwyr sydd eisoes wedi dilyn cymwysterau cymhwyso rhif yng nghyfnod allweddol 4. Yn aml, nid yw dysgwyr sydd eisoes wedi ennill cymhwyster lefel 2 yn aml yn mynd ymlaen i lefel 3 ond maent yn dilyn cymwysterau mewn medrau eraill yn hytrach.

62 Fel arfer, yr adran fathemateg sy'n ymgymryd yn gyfan gwbl â'r rhaglen waith ar gyfer cymhwyso rhif, pan fydd pob dysgwr mewn dosbarth yn gwneud prosiectau tebyg trwy weithio'n annibynnol. Dull arall yw lle caiff ei chyflwyno fel rhan o 'wythnos fedrau' neu brosiectau arbennig. At ei gilydd, mae rhai dysgwyr yn cynnwys tystiolaeth o bynciau heblaw mathemateg yn eu portffolios.

63 Ar y cyfan, mae gan ddysgwyr agwedd dda tuag at eu gwaith prosiect ar gymhwyso rhif pan gânt eu cofrestru ar lefel briodol. Maent yn hoffi gweithio arnynt yn unigol ac yn gwneud eu hymchwil eu hunain pan gânt y cyfle i wneud hynny. Mae dysgwyr o bob gallu yn mwynhau'r dull hwn ar gyfer datblygu eu medrau rhifedd, ac mae llawer o athrawon a dysgwyr yn sôn am gynnydd yng nghymhelliant dysgwyr o ganlyniad. Maent yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu ennill cymhwyster ychwanegol defnyddiol neu gyfraniad at eu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae ennill cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru yn ystod Blwyddyn 10 yn aml yn gwella cymhelliant llawer o ddysgwyr i ennill cymwysterau pellach ym Mlwyddyn 11.

64 Mae rhai ysgolion yn trefnu darpariaeth ofalus i annog a chymell dysgwyr sydd wedi ymddieithrio neu wedi'u dadrithio. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cymorth i helpu dysgwyr i wella eu medrau rhifedd. Er enghraifft, mae gan un ysgol hanes hir o ddarparu ei rhaglen gymorth ei hun ar gyfer dysgwyr sydd wedi ymddieithrio yng nghyfnod allweddol 4. Er bod gan y dysgwyr gwricwlwm

sy'n benodol i'w hanghenion, caiff pob un ohonynt gymorth llythrennedd a rhifedd trwy'r adrannau Saesneg a mathemateg. Mae bron pob un o'r dysgwyr hyn yn ennill cymhwyster cymhwyso rhif ar lefel 1. Mae ysgol arall yn creu set fach yng nghyfnod allweddol 4 sy'n cynnwys athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu sydd wedi cael eu hyfforddi'n benodol gan yr adran fathemateg a'r awdurdod lleol i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Mae'r cwricwlwm ar gyfer y grŵp hwn yn cynnwys ffocws clir ar rifedd ac fe gaiff pob dysgwr ei gofrestru ar gyfer cymhwyso rhif lefel mynediad neu lefel 1 fel y bo'n briodol ym Mlwyddyn 10. Mae anogwyr dysgu yn gweithio ar anghenion rhifedd penodol ar raglen dreigl, lle caiff dysgwyr eu tynnu o wersi gwahanol bob wythnos.

## Colegau

65 Yn gyffredinol, gall colegau ddarparu amrywiaeth o strategaethau cymorth i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr, sy'n amrywio o sesiynau tiwtorial un i un, astudio annibynnol gyda llyfrau gwaith dan gyfarwyddyd athro, sesiynau galw i mewn a sesiynau medrau sylfaenol penodol, i diwtoriaid rhifedd ychwanegol neu addysgu tîm mewn sesiynau prif gwrs. Maent hefyd yn darparu ystod dda o adnoddau i gefnogi rhifedd, o ddeunyddiau ar-lein i adnoddau wedi'u datblygu yn fewnol. Mewn rhai achosion, mae angen mwy o gymorth ac adnoddau yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

66 Mae dysgwyr sy'n cael cymorth ychwanegol yn aml yn sôn am nifer o fanteision, gan gynnwys hyder cynyddol, a'r gallu i drosglwyddo eu medrau rhifedd i'w cwrs. Gall llawer ohonynt ddilyn ystod dda o gymwysterau priodol, o ddarpariaeth 'dameidiog' i fwy o ddarpariaeth tymor hir, i adlewyrchu eu dysgu ychwanegol a rhoi cymhelliant a diben iddynt. Er bod colegau yn cefnogi dysgwyr sydd â gwendidau yn eu medrau rhifedd, nid ydynt yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod y rhai sydd â medrau rhesymol yn eu cymhwyso'n effeithiol yn eu cyrsiau.

67 Mae'r dadansoddiadau a wnaed gan golegau unigol hefyd yn dangos cyfraddau cadw, cwblhau, presenoldeb a llwyddo gwell ymhlith dysgwyr sydd wedi'u dadrithio a dysgwyr eraill sy'n manteisio ar gymorth ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata cenedlaethol i egluro'r pwynt hwn. Mewn un coleg, defnyddir mentoriaid dysgu i ymgysylltu â dysgwyr sy'n amharod i ddefnyddio'r cymorth a gynigir neu sydd mewn perygl o roi'r gorau i gyrsiau. Maent yn cefnogi'r dysgwyr mewn ystod gyfan o faterion personol, yn ogystal ag yn eu medrau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr y nodwyd bod ganddo wendidau yn ei fedrau rhifedd yn manteisio ar y cymorth a gynigir. Ym mwyafrif y colegau, mae tua thri chwarter o'r dysgwyr a nodwyd yn manteisio ar gymorth, er nad yw pob un o'r dysgwyr hyn yn parhau i ofyn am gymorth pan fyddant yn cyrraedd y lefel sylfaenol sydd ei hangen ar gyfer eu nod cymhwyster. Nid yw colegau yn annog dysgwyr yn rhagweithiol i barhau i wella eu rhifedd i lefel fwy heriol.

68 Mae colegau yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i fonitro ac olrhain cynnydd y dysgwyr, gan gynnwys cofnodion mewnrwyd y coleg o asesiadau, sesiynau tiwtorial personol, trafod ac adolygu cynlluniau dysgu unigol, a chofnodion yr athrawon eu hunain. Er enghraifft, mewn lleiafrif o golegau, mae gan bob dysgwr broffil ar fewnrwyd y coleg sy'n cael ei ddiweddaru bob tro y mae dysgwr yn cwblhau asesiad. Mae'r system yn galluogi pob athro i weld cofnodion unrhyw ddysgwr.

Gellir llunio adroddiadau dosbarth i lywio cynllunio sesiynau, a gall athrawon neilltuo rhaglen ddysgu ar-lein i ddysgwyr unigol trwy'r system, ac fe gaiff y canlyniadau eu cofnodi wedyn. Gall yr athro drafod y canlyniadau gyda'r dysgwr wedyn, a diweddaru'r system gyda sylwadau'r athro a'r dysgwr.

69 Fel arfer, caiff dysgwyr yn y coleg ar raglenni dysgu yn y gwaith ychydig o gymorth arbenigol yn y gweithle ac fe gânt gyfle i fanteisio'n llawn ar wasanaethau cymorth eraill a ddarperir gan y coleg.

70 Mae llawer o'r dysgwyr ar leoliadau yn y gwaith wedi cael eu cyfeirio gan Gyrfa Cymru, ac maent yn wynebu llawer o rwystrau rhag dysgu effeithiol a chyflogaeth. Mae'n amlwg eu bod wedi'u cymell gan berthnasedd a natur ymarferol y rhaglen, yn ogystal â chymorth unigol targedig a all gysylltu ag asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Mewn un darparwr, mae bron yr holl addysgu'n digwydd mewn grwpiau o wyth i 12 dysgwr. Yn dibynnu ar yr angen, gwneir defnydd da o gynorthwywyr cymorth dysgu. Mae'r ffocws bob amser ar fedrau hanfodol. Rhoddir pwyslais cryf ar agwedd, presenoldeb a chadw amser hefyd. Mae gan bob dysgwr ei dargedau unigol a chyflawnadwy. Ni wneir unrhyw ymgais i guddio'r ffaith mai diben y gwaith yw gwella eu medrau sylfaenol, ond cânt eu datblygu mewn cyd-destun bywyd go iawn sy'n gysylltiedig â galwedigaeth – chwaraeon yn yr achos hwn.

## Staffio a datblygiad proffesiynol

71 Mae llawer o ysgolion wedi trefnu hyfforddiant penodol ar rifedd a'r fframwaith medrau i bob un o'r staff. Darperir hyn gan yr adran fathemateg, cydlynydd rhifedd yr ysgol, yr awdurdod lleol, neu gan ymgynghorwyr allanol. Nodir anghenion hyfforddi mewn ffyrdd amrywiol, er enghraifft trwy gyfarfodydd adrannol, gwaith dilynol o arsylwadau gwersi neu gyfarfodydd rheoli perfformiad, neu gan weithgor o athrawon sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi darparu hyfforddiant ar rifedd ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu, ac ar gyfer dysgwyr y chweched dosbarth sy'n gweithredu fel 'cyfeillion' ar gyfer dysgwyr iau y mae angen cymorth mewn rhifedd arnynt.

72 Caiff hyfforddiant penodol ar gymwysterau cymhwyso rhif ei ddarparu ar gyfer cydlynwyr rhifedd ysgolion gan CBAC. Yna, caiff yr hyfforddiant hwn fel arfer ei ledaenu o fewn yr ysgol ac mae'n helpu gwella'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant yn canolbwyntio digon ar alluogi dysgwyr i gofrestru ar gyfer lefel 3, lle bo'n briodol. Nid yw ychwaith yn sicrhau bod portffolios gwaith yn cynnwys tystiolaeth o ystod o bynciau.

73 Er gwaethaf y gweithgarwch hwn, ychydig o arfarnu'r hyfforddiant a wna ysgolion, os o gwbl, i bennu ei effaith a nodi anghenion hyfforddi pellach.

74 Mae llawer o'r staff cymorth arbenigol a'r cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n cyflwyno neu'n cefnogi cyflwyno medrau sylfaenol yn y colegau addysg bellach wedi ennill cymwysterau addysgu neu gefnogi medrau sylfaenol ar lefelau priodol. Yn ychwanegol, mewn rhai colegau, mae llawer o'r tiwtoriaid pwnc/cwrs maes dysgu a'r athrawon hefyd wedi ennill y cymwysterau hyn er mwyn i bob athro allu cefnogi anghenion rhifedd dysgwyr. Caiff anghenion hyfforddi staff eu nodi trwy weithdrefnau rheoli ac adolygu perfformiad, a allai gynnwys arsylwadau gwersi gan uwch staff, arsylwi cymheiriaid, cyfweliadau anffurfiol, a hunanfyfyrio, pan gytunir ar dargedau unigol a nodir hyfforddiant priodol mewn cyflwyno medrau sylfaenol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

75 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan yr adran fathemateg fewnbwn cryf mewn cefnogi adrannau i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm ac ar draws gwahanol ystodau oedran. Yn yr ysgolion hyn, caiff y defnydd o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ei fonitro'n effeithiol, gan gynnwys defnyddio arsylwadau gwersi gan uwch reolwyr. Ar y llaw arall, ychydig iawn o ystyriaeth, os o gwbl, y mae rhai ysgolion wedi'i rhoi i'r angen i ddatblygu medrau rhifedd pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4, heblaw ar gyfer y dysgwyr hynny y mae angen ymyrraeth benodol arnynt.

76 Mewn sawl ysgol, mae rheolwyr yn gweithio'n agos gyda'r adran fathemateg, y pennaeth cynhwysiant neu'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol, yn cynnwys y rhai sy'n cael ymyrraeth benodol i fynd i'r afael â'u medrau rhifedd gwan. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi dechrau'r gwaith ar gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ac mae'n ei gynnwys mewn cynlluniau ysgol gyfan ac wrth ddyrannu adnoddau. Mae hyn yn fwyaf effeithiol pan fydd cydlynydd Bagloriaeth Cymru a'r adran fathemateg yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflwyno cymhwyso rhif fel rhan o'r strategaeth hon.

77 Yn ogystal â darparu hyfforddiant, mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i gydlynwyr rhifedd ysgolion gyfarfod a rhannu arfer dda, ac yn darparu adnoddau ymyrraeth briodol ar gyfer ysgolion.

78 At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw uwch reolwyr yn monitro nac yn arfarnu effaith y strategaethau amrywiol yn ddigonol i gefnogi datblygiad medrau rhifedd dysgwyr, ac nid ydynt yn gwneud digon i sicrhau bod systemau ar waith i olrhain y cynnydd a wna dysgwyr.

79 Rhoddir blaenoriaeth uchel a phriodol bron ym mhob un o'r colegau i ddatblygu medrau sylfaenol dysgwyr, ac mae ffocws clir ar hyn mewn dogfennau strategol, gweithredol, ansawdd a hunanarfarnu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod rhifedd yn cael ei sefydlu a'i osod mewn cyd-destun priodol ar holl gyrsiau'r coleg. Mae llawer o golegau yn parhau i gynnal dosbarthiadau rhifedd ar eu pen eu hunain a gall y graddau y caiff dysgu ei roi mewn cyd-destun amrywio o un adran i'r llall mewn coleg, gyda mwy o bwyslais ar y cyrsiau lle mae angen rhifedd er mwyn cyflawni cymhwysedd galwedigaethol. Er enghraifft, caiff rhifedd yn aml ei roi mewn cyd-destun mewn cyrsiau peirianneg, ond nid mewn cyrsiau trin gwallt.

80 Mae uwch reolwyr mewn colegau yn defnyddio strategaethau amrywiol i arfarnu'r ddarpariaeth a'r deilliannau medrau sylfaenol. Caiff targedau penodol a mesuradwy eu defnyddio'n effeithiol, ac adroddir am y canlyniadau i'r corff llywodraethol. Er enghraifft, mae un coleg yn monitro cyfraddau llwyddo ar bob lefel, ac fe gyflwynir data ar hyn i bwyllgor ansawdd ac arfarnu'r coleg a'i adrodd i lywodraethwyr trwy bwyllgor safonau'r coleg.

81 Mae rhai colegau hefyd yn casglu safbwyntiau eu dysgwyr trwy grwpiau ffocws neu holiaduron fel rhan annatod o'r broses arfarnu. Gan nad yw rhai colegau yn arfarnu eu deilliannau yn ddigon trylwyr, ni all eu blaengynllunio roi digon o ystyriaeth i unrhyw ddadansoddiadau o ddata.

82 Mae lleiafrif o ddarparwyr dysgu yn y gwaith yn arfarnu effaith cymorth rhifedd yn dda. Maent yn olrhain ac yn monitro targedau dysgu rhifedd ar gynlluniau dysgu unigol yn ogystal â monitro cyfraddau cadw, cyrhaeddiad a chwblhau llwyddiannus.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- adroddiadau arolygu ar ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith o gylch arolygu 2004-2010;
- canlyniadau TGAU ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, a chanlyniadau cymhwyso rhif medrau allweddol mewn ysgolion a lleoliadau ôl-16; a
- chyfweliadau gyda 54 o staff a 100 o ddysgwyr mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith.

## Atodiad 2: Astudiaethau achos arfer dda wrth ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr

**Cyd-destun**

Ysgol i fechgyn 11 i 18 oed ym Mro Morgannwg yw Ysgol Gyfun y Barri, ac mae tua 1,400 o ddysgwyr yn ei mynychu.

**Strategaeth**

Cafodd pob un o'r staff hyfforddiant ar gynnwys rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Roedd yr ysgol am wneud yn siŵr bod hwn yn cael ei roi ar waith ar draws yr ysgol.

**Gweithredu**

Aeth y grŵp addysgu a dysgu ati i ailgynllunio'r arweiniad a'r ffurflen a ddefnyddir ar gyfer arsylwadau gwersi gyda maes penodol i roi sylwadau ar ddatblygu medrau yn ystod y wers. Mae pob un o'r staff bellach yn arfarnu'r defnydd o rifedd mewn gwersi, pan fo'n berthnasol.

**Deilliannau**

Mae arfarnu mentrau rhifedd wedi gwella ac mae staff yn gwybod pa fentrau sy'n cael yr effaith fwyaf. Caiff disgyblion fwy o gyfleoedd i ymarfer a gwella eu medrau rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.

**Cyd-destun**

Ysgol cyfrwng Cymraeg 11-18 yng Nghaerfyrddin gyda 960 o ddysgwyr ynddi yw Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

**Strategaeth**

Bwriad yr ysgol oedd sicrhau ymdriniaeth ag adran 'datblygu rhif' y fframwaith medrau ac wedyn rhoddodd weithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro'r modd y cafodd ei chyflwyno.

**Gweithredu**

Arweiniodd yr adran fathemateg ddiwrnod hyfforddiant rhifedd ysgol, pan aeth staff ati i archwilio eu darpariaeth adrannol a chynllunio i gynnwys adrannau coll. Fe wnaeth aelodau o'r uwch dîm rheoli ddilyn disgyblion penodol am ddiwrnod wedyn i arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm a'u safonau. Fe wnaethant ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y gallai disgyblion drosglwyddo'r medrau a ddysgwyd mewn gwersi mathemateg i wahanol sefyllfaoedd a ph'un a oedd y disgyblion yn cael eu herio digon gan y gweithgareddau dysgu. Rhoddodd hyn ddarlun clir i'r ysgol o ba mor dda yr oedd rhifedd yn cael ei ymgorffori mewn gwahanol bynciau. Cafodd adroddiad ar ganfyddiadau o lwybr y dysgwr ei lunio a'i ddosbarthu i adrannau amrywiol, a gofynnwyd iddynt lunio cynlluniau gweithredu perthnasol o ganlyniad.

**Deilliannau**: Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd effeithiol yr ysgol yn golygu bod rhifedd yn cael ei ymgorffori'n dda yn y cwricwlwm ar draws pob maes pwnc. Mae safonau yn adrannau rhifedd arholiadau mathemateg TGAU wedi dangos gwelliant o ganlyniad.

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun cyfrwng Saesneg 11 i 16 oed yn Wrecsam yw Ysgol Uwchradd Rhosnesni. Mae 231 o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10, ac mae 35 ohonynt yn cael cymorth ar gyfer rhifedd.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol yn cynnig cyfle i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 ennill cymwysterau mewn cymhwyso rhif. Er mwyn herio eu disgyblion mwyaf abl, mae'r ysgol yn cynnig cyfle iddynt ennill cymhwyster ar lefel 3.

**Gweithredu**

Mae tua 95% o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 yn dilyn cymhwyster lefel 2 mewn cymhwyso rhif. Mae dysgwyr yn ymgymryd â gweithgaredd amcangyfrif lle maent yn dyfalu pryd mae tri deg eiliad wedi mynd heibio. Maent yn ymgymryd ag ystod o ddadansoddiadau ar eu data gan ofyn cwestiynau a luniwyd ganddynt eu hunain, er

enghraifft, “A yw’r amser o’r dydd yn effeithio ar allu pobl?” neu “A yw merched yn well na bechgyn yn y dasg hon?” Neilltuir amser ar gyfer y dasg hon yn ystod hanner cyntaf tymor y gwanwyn, ac mae dysgwyr yn ymgymryd â’r dasg yn annibynnol. Mae dysgwyr mwy abl a dawnus yr ysgol yn dilyn y cwrs cymhwyso rhif ar lefel 3 ym Mlwyddyn 11. Mae adran o’r ystafell ddosbarth wedi’i neilltuo ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, lle maent yn gweithio’n annibynnol i ymgymryd â thasgau gan ddefnyddio data o ddigwyddiadau diwrnod chwaraeon yr ysgol. Mae’r athro yn gweithredu fel hwylusydd pan fydd angen.

**Deilliannau**

Erbyn diwedd Blwyddyn 10, enillodd bron pob dysgwr gymhwyster cymhwyso rhif lefel 2. Erbyn diwedd Blwyddyn 11, roedd y grŵp cyntaf a gofrestrwyd ar gyfer cymhwyso rhif lefel 3 i gyd yn llwyddiannus. Dywedodd y dysgwyr a oedd yn ymwneud â’r gwaith hwn ei fod yn werthfawr oherwydd ei fod yn rhoi cymhwyster iddynt ac yn eu helpu i ddysgu’n annibynnol. Ystyriodd y dysgwyr a oedd yn gweithio ar lefel 3 fod y gwaith yn heriol, ond yn fuddiol iawn. Cwblhawyd un o fodiwlau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gynnar, gan olygu y byddai’r baich gwaith yn y coleg yn lleihau.

**Cyd-destun**

Coleg addysg bellach yng Ngogledd Cymru yw Coleg Llandrillo Cymru.

**Strategaeth**

Mae’r coleg yn cynnig ymateb wedi’i deilwra i anghenion dysgwyr unigol. Gwnaeth dysgwr ifanc gais am le ar gwrs adeiladu, ond nid oedd ganddo’r cymwysterau derbyn gofynnol. Cynigiodd y coleg le i’r dysgwr ar gwrs cymorth i ennill y cymwysterau perthnasol. Ers ennill y cymwysterau, mae’r dysgwr wedi gallu mynd ymlaen i’w ddewis gwrs.

**Gweithredu**

Nododd yr asesiad cychwynnol fod medrau rhifedd y dysgwr ar lefel mynediad 1. Cymraeg yw ei famiaith, ac mae ganddo nam ar ei glyw. Mae’n darllen gwefusau yn Gymraeg ac yn gallu deall iaith arwyddion, ond nid yw’n ei defnyddio. Nid oedd am fanteisio ar gymorth y tu allan i’r dosbarth ac nid oedd am gael ei drin yn wahanol i’r dysgwyr eraill.

Darparodd y coleg gefnogwr a oedd yn medru’r Gymraeg, yn gwneud iaith arwyddion ac yn cefnogi anghenion rhifedd. Galluogodd hyn i’r dysgwr fanteisio ar bob rhan o’r cwrs cymorth. Gweithiodd y cefnogwr yn agos â thiwtoriaid y cwrs a thiwtor personol y dysgwr i gynllunio’r dysgu. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y dysgwr wedi ennill cymhwyster lefel mynediad 3.

**Deilliannau**

Mae Adam wedi goresgyn rhwystrau sylweddol rhag dysgu ac mae wedi mynd yn ei flaen i ddilyn cwrs adeiladu lle mae'n parhau i gael cymorth ar gyfer datblygu ei fedrau rhifedd. Mae ar y trywydd iawn i ennill cymhwyster lefel 1 cymhwyso rhif erbyn diwedd Rhagfyr ac mae cymorth wedi'i gynllunio ar ei gyfer i gyflawni lefel 2 erbyn diwedd y flwyddyn academaidd ym mis Gorffennaf.

**Cyd-destun**

Darparwr dysgu yn y gwaith yng Ngogledd Cymru yw I-Tec Wrecsam.

**Strategaeth**

Roedd dysgwr ifanc wedi bod ar brofiad gwaith gyda'r awdurdod lleol ac yn gobeithio cael ei derbyn ar raglen Prentisiaeth Fodern yr awdurdod. Fodd bynnag, ar y pryd nid oedd yn bodloni'r gofynion derbyn llym i gael TGAU gradd C neu'n uwch mewn Saesneg (yr oedd ganddi radd C ynddi) a mathemateg (yr oedd ganddi radd E yn unig ynddi).

**Gweithredu**

Dechreuodd y dysgwr ar y rhaglen Adeiladu Sgiliau yn Nhachwedd 2009, pan gafodd ei hasesu ar lefel mynediad 3 ar gyfer rhifedd.

**Deilliannau**

Mae'r dysgwr wedi cwblhau'r cymhwyster lefel 2 mewn cymhwyso rhif erbyn hyn, ac mae wedi llwyddo i sicrhau Prentisiaeth Fodern o fewn is-adran adran datblygiad economaidd yr awdurdod lleol. Mae gan y dysgwr ddyheadau yn awr i fynd yn ei blaen i ennill gradd, sy'n rhywbeth nad oedd erioed yn credu y byddai'n bosibl pan adawodd yr ysgol.

**Cyd-destun**

Coleg addysg bellach yn y canolbarth yw Coleg Powys.

**Strategaeth**

Mae Coleg Powys yn cynnig cymorth da trwy gyngor un i un a gweithdai i wella medrau tiwtoriaid ac aseswyr dysgu yn y gwaith i'w helpu i gefnogi dysgwyr â'u hanghenion rhifedd.

**Gweithredu**

Anogodd y coleg bob un o'r staff i gymryd asesiad cychwynnol a diagnostig mewn rhifedd. Mae hyn wedi helpu staff i nodi meysydd ar gyfer hunanwella. Mae

arbenigwyr cymorth dysgu yn cynnig sesiynau gweithdy galw i mewn ar gyfer staff i wella eu medrau rhifedd. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn dysgu ffyrdd effeithiol o gefnogi anghenion rhifedd eu dysgwyr.

**Deilliannau**

Mae un athro o'r farn fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr. "Trwy fynychu'r sesiynau galw i mewn, fe wnes i fagu hyder mewn ffyrdd i ymgorffori rhifedd mewn meysydd galwedigaethol ac wrth gyflwyno cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru."

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Val Scott | Awdur yr adroddiad |
| Eleanor Davies | Aelod o'r tîm |
| Ceri Jones | Aelod o'r tîm |
| Gill Sims | Aelod o'r tîm |
| Mererid Stone | Aelod o'r tîm |